Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 50/2014

Cyflogaeth a phobl ifanc ag awtistiaeth

Crynodeb hawdd ei ddarllen

Teitl prif adroddiad:
Ymchwil i Ganlyniadau Cyflogaeth i Bobl Ifanc ag Anhwylderau Sbecrwm Awtistaidd

Cyflogaeth a phobl ifanc ag awtistiaeth

Crynodeb Hawdd ei ddarllen

Ruth Townsley	(Ruth Townsley Research)
Carol Robinson	(Carol Robinson Consulting)
Val Williams	(Canolfan Ymchwil Norah Fry, Prifysgol Bryste)
Stephen Beyer	(Welsh Centre for Learning Disabilities, Prifysgol Caerdydd)
Ceri Christian-Jones	(Prifysgol Bangor)

Daw'r lluniau a ddefnyddir o CHANGE www.changepeople.co.uk ac Inspired Services www.inspiredservices.org.uk

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Joanne Starkey
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 826734
E-bost: joanne.starkey@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2 Mehefin 2014
978-1-4734-1411-2

© Hawlfraint y Goron 2014

Ynglŷn â'r crynodeb hawdd ei ddarllen yma

Mae'r llyfryn hawdd ei ddarllen yma yn ymwneud â chyflogaeth a phobl ifanc ag awtistiaeth sy'n byw yng Nghymru.



Mae'n grynodeb o adroddiad llawer hirach o'r enw:
'Ymchwil i Ganlyniadau Cyflogaeth i Bobl Ifanc ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistaidd'.

Mae llawer o bobl ifanc ag awtistiaeth yn ei chael yn anodd cael swyddi pan fyddant yn gadael yr ysgol, coleg neu brifysgol. Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwybod faint o bobl ifanc ag awtistiaeth sy'n cael swyddi a pham y gall fod yn anodd iddynt ddod o hyd i waith. Gofynnodd y llywodraeth i rai ymchwilwyr i'w helpu i ddod o hyd i'r pethau yma.

Sut cafodd yr ymchwil ei wneud?

Gofynnwyd i lawer o bobl beth oedd eu barn am gyflogaeth. Siaradom gyda:

- Pobl ifanc ag awtistiaeth
- Rhieni a gofalwyr
- Pobl sy'n rhoi cymorth a chyngor am swyddi a gwaith
- Pobl sy'n gweithio mewn elusennau neu sefydliadau gwirfoddol
- Pobl sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru.

Fe edrychom ar yr holl feddyliau a syniadau. Yna fe wnaethom ysgrifennu'r adroddiad yma am beth wnaeth pobl dweud wrthym.

Rydym eisiau dweud diolch yn fawr i bawb wnaeth helpu gyda'r ymchwil yma.

Faint o bobl ifanc ag awtistiaeth sy'n gweithio?

Dywedodd pobl ifanc ag awtistiaeth sy'n byw yng Nghymru wrthym eu bod eisiau gweithio. Ond rydym wedi darganfod mai ychydig iawn o bobl ifanc sy'n cael swyddi llawn neu ran amser ar ôl iddynt adael yr ysgol, coleg neu brifysgol. Mae pobl ifanc ag awtistiaeth 2-4 gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith i gymharu a phobl ifanc sydd heb anabledd.



Pan fyddant yn gadael yr ysgol, prin unrhyw bobl ifanc ag awtistiaeth sy'n llwyddo cael swydd yn syth. Ond tua 1 person allan o 100 sy'n cael swydd.



Mae rhai pobl ifanc ag awtistiaeth yn mynd i goleg addysg bellach yn lle. Ond hyd yn oed ar oed ar ôl iddynt adael y coleg, ychydig iawn sy'n gallu cael swydd yn syth. Tua 8 o bobl 100 o bobl ifanc sy'n gadael coleg ac yn mynd i mewn i waith.

Mae ychydig o bobl ifanc ag awtistiaeth yn mynd ymlaen i'r brifysgol. Mae mwy o bobl ifanc ag awtistiaeth sy'n mynd i'r brifysgol yn cael swyddi. Mae tua 35 o bob 100 o bobl ifanc yn dod o hyd i waith yn fuan ar ôl iddynt adael y brifysgol.

Cymorth i gael gwaith cyflogedig

Dangosodd yr ymchwil bod llawer o bobl ifanc ag awtistiaeth yn dibynnu ar eu teuluoedd i'w helpu i ddod o hyd i swyddi ac aros mewn gwaith.

Gall y rhan fwyaf o bobl ifanc ag awtistiaeth cael help a chyngor gan wasanaethau cymorth cyflogaeth, fel y Ganolfan Byd Gwaith, Remploy neu NAS Prospects. Mewn gwirionedd mae dros 100 o wasanaethau cymorth cyflogaeth wahanol yng Nghymru y gall pobl ifanc ag awtistiaeth eu defnyddio.

Ond dangosodd yr ymchwil nad yw pob person ifanc ag awtistiaeth yn gwybod am y gwasanaethau yma, neu eu defnyddio. Ac nid yw pob gwasanaeth cymorth cyflogaeth yn meddu ar y sgiliau na'r wybodaeth i roi cymorth da i bobl ifanc ag awtistiaeth.

Mae pobl ifanc a'u teuluoedd eisiau cael cymorth gan staff sy'n deall awtistiaeth. Mae'n hefyd yn bwysig iawn i bobl ifanc i gael cyngor da ynghylch pryd a sut i ddweud wrth eraill am eu hawtistiaeth.

Beth fyddai'n ei gwneud yn haws i bobl ifanc ag awtistiaeth i gael gwaith?

Fe wnaeth yr ymcwhil darganfod bod rhai pethau a fyddai'n ei gwneud yn haws i bobl ifanc ag awtistiaeth i gael gwaith:

1. Cyngor gyrfaoedd a chymorth cyflogaeth yn yr ysgol gan gynghorwyr sy'n deall awtistiaeth.

2. Profiad gwaith yn yr ysgol sy'n gysylltiedig â nodau a diddordebau pobl ifanc.



3. Mynediad i gyrsiau a hyfforddiant (gan gynnwys dysgu yn y gwaith) sy'n helpu pobl ifanc ag awtistiaeth i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

4. Mynediad i fudd-daliadau a chyngor “gwell eu byd mewn gwaith’ ar gyfer y teulu cyfan.



5. Hyfforddiant a chefnogaeth teithio, oherwydd gall yr ofn o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fod yn rhwystr i wneud cais am a chadw swyddi.

6. Cael cydweithwyr a rheolwyr sy’n deall awtistiaeth ac yn hapus i wneud ‘addasiadau rhesymol’. Mae’r rhain yn newidiadau bach i’r gweithle sy’n ei gwneud yn haws i rywun ag awtistiaeth i wneud eu gwaith yn dda.



7. Mynediad i gwnsela ar gyfer pryder sy'n gysylltiedig â gwaith.

8. Cael gwybodaeth, cyngor a chymorth am weithio i chi eich hun. Gelwir hyn yn bod yn hunangyflogedig.

9. Cael help gan wasanaethau cymorth cyflogaeth lle mae'r staff yn deall awtistiaeth. Mae pobl ifanc eisiau cymorth cyflogaeth sy'n parhau ac nid yn unig yn y tymor byr. Mae llawer o bobl ifanc hefyd angen cymorth rheolaidd gan 'hyfforddwr swydd'. Mae'r person yma yn rhywun sy'n gallu eich helpu ym mhob cam o'r broses chwilio am swydd, o feddwl am swydd, i fod yn y gwaith.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ddiwedd yr ymchwil, rydym wedi gwneud rhestr o syniadau a elwir yn argymhellion. Mae'r rhain yn bethau i Lywodraeth Cymru, gwasanaethau cymorth cyflogaeth a phobl eraill i wneud, feddwl a siarad am.

Rydym yn gobeithio y bydd y pethau yma yn helpu i wneud hi'n haws i bobl ifanc ag awtistiaeth i gael cymorth i ddod o hyd i waith os ydynt yn dymuno hynny.

Gallwch ddod o hyd i'r rhestr o argymhellion yn yr adroddiad a'r crynodeb o'r adroddiad llawn drwy glicio ar y ddolen ar ddiwedd y dudalen hon.

Os ydych am gael gwybod mwy am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud am gyflogaeth a phobl ifanc ag awtistiaeth, ewch i:

http://www.asdinfowales.co.uk

Dolenni i adroddiadau eraill am yr ymchwil



Mae'r llyfryn yma yn grynodeb o adroddiad llawer hirach o'r enw: 'Ymchwil i Ganlyniadau Cyflogaeth i Bobl Ifanc ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistaidd'.

Gallwch lawrlwytho'r adroddiad a'r crynodeb o'r adroddiad llawn o safle we cyhoeddiadau diweddaraf Llywodraeth Cymru:

http://wales.gov.uk/statistics-and-research/research-employment-outcomes-young-people-autistic-spectrum-disorders/?lang=cy

Daw'r lluniau a ddefnyddir o CHANGE www.changepeople.co.uk

ac Inspired Services www.inspiredservices.org.uk